CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
11 Tachwedd 2020
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, S Jones, E Huws, E Law-Shui Nicholson, R G Parry, G Parry, H Eddings, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng J Earnshaw, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso I aelod Newydd Cyng Heledd Eddings
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 15.10.20 - Cyng E Huws yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae CCTV** – Mae y Clerc yn disgwyl clywed gan Snowdon Fire I trefnu cyfarfod ar y safle
4.2	**Llwybrau Cyhoeddus** – Mae Cyng E Law-Shui Nicholson wedi derbyn mapiau gan y Cyngor Sir. Bydd y Cyngor yn cael golwg ar y llwybrau yn y gwanwyn.
4.3	**Y Fynwent** - Cytunwyd i edrych ar osod llwybr newydd yn y flwyddyn newydd. Cytunwyd hefyd pan ddechreuir y rhes newydd nesaf o feddau (rhes G) i adael lle ar gyfer torri gwrychoedd
4.4	**Adroddiad Playsafety** - Dywedodd y Clerc na fydd G L Jones yn gwneud atgyweiriadau i offer pren. Bydd y Clerc yn trefnu i gontractwr arall edrych ar y gwaith. Mae'r Clerc hefyd wedi derbyn pris gan G L Jones am matiau newydd yn y maes chwarae ar gost o £ 15390. Bydd y Clerc yn trefnu i gael mwy o ddyfynbrisiau
4.5	**Cysgodfannau bws** – Mae'r Clerc wedi derbyn un pris am cysgodfan newydd yn Nhreban. Bydd yn trefnu i gael mwy o ddyfynbrisiau.
4.6	**Rhodd** – trafod yn y cyfarfod nesaf
4.7	**Costau claddu** - Cytunwyd bod y costau yn aros fel y maent
4.8	**Parcio yn y Stryd Fawr** a sheet metal - Dywedodd y Cynghorydd R G Parry nad yw'n bosib paentio llinellau melyn ar ran o'r briffordd - byddai'n rhaid iddyn nhw fod yr holl ffordd o'r lorwerth i gornel Stryd Salem. Penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen. Mesur dros dro yw'r ddalen fetel i orchuddio draen
	Llofnod…….Cadeirydd 13.01.21

5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Diolchodd y Cadeirydd i bawb am weithio gyda'i gilydd mor dda yn ystod y flwyddyn a'r Clerc am ei waith. Dymunodd nadolig hapus i bawb
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	FPL2020/123 Plas Llechylched, Bryngwran-Dywedodd y Cynghorydd R G Parry fod yr Adran Gynllunio wedi gofyn i'r ymgeiswyr am ragor o wybodaeth. Mae pryderon ynghylch ceir yn gadael yr adeilad yn hwyr yn y nos yn dilyn priodasau ac ati. Mae problemau traffig eisoes yn Stryd Salem
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Parc Solar** Traffwll-Dywedodd y Cynghorydd R G Parry fod archeolegwyr yn cynnal arolygon cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad
7.2	**Cysgodfan Bws** – Mae'r Clerc wedi derbyn unpris am cysgodfan a bydd yn cael mwy o prisiau ar gyfer y cyfarfod nesaf
7.3	**G L Jones** - Dywedodd y Clerc na fydd G L Jones yn gwneud gwaith ar bren, dim ond metal. Bydd yn trefnu i gontractwr arall edrych ar y gwaith ar y maes chwarae
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Bin y fynwent** - Mae Kevin Humphreys wedi cytuno i barhau i drefnu bod bin y fynwent yn cael ei wagio. Ni fydd unrhyw cost i'r cyngor
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Costau y Clerc £181.24
9.2	Rhoddion Nadolig£100 yr un: Ysgol Bryngwran, Ysgol Feithrin Bryngwran, Plas Crigyll, Canolfan Dydd Plas Crigyll
9.3	Cyngor Gwynedd archwilio £162.00
9.4	Costau y Cadeirydd £225.97
9.5	Cytunwydi dalu am "Zoom unlimited"ar gyfer cyfarfodydd. Bydd yn rhaid talu hwn ar-lein gyda cherdyn. Cynigiodd y Clerc wneud y taliad ac adennill y gost
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd **13.01.21**